**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Yr Arglwydd Faulks
Cadeirydd y Pwyllgor Cwynion yn y
Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg

20 Mai 2024

Annwyl Arglwydd Faulks,

Cymru wrth-hiliol a'r defnydd o iaith ddifrïol hiliol

Mae'r rhagair i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a edrychodd ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi bod y:

> *"nod...o ddod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030, ymhen dim ond chwe blynedd...[yn] gofyn inni fod yn weithgar, nid yn oddefol. Gwrthsefyll, yn hytrach na derbyn y bydd gwahaniaethu hiliol yn digwydd."*[1]

Fel Pwyllgor trawsbleidiol, rydym wedi cefnogi nod cyffredinol Llywodraeth Cymru wrth nodi y bydd angen i'r "newid sefydliadol, gwleidyddol a diwylliannol sydd ei angen (i greu Cymru wrth-hiliol) gynnwys y gymdeithas gyfan".

Ar 11 Mai, cyhoeddodd y Mail Online erthygl ar y dyddiad yn nodi 25 mlynedd ers datganoli.
https://www.dailymail.co.uk/news/article-13407979/The-great-devolution-disaster-Grotesque-levels-corruption-Pygmy-politicians-obsession-woke-dogma-upsurge-nationalism-supposed-tame.html ."[2]

Nid oes gennym achos cweryla â'r feirniadaeth o berfformiad Llywodraeth Cymru; dyna'r hyn y mae'r 3edd ystad i fod i'w wneud i gadw'r bobl mewn grym ar flaenau eu traed. Fodd bynnag, rydym yn anghytuno ynghylch y term 'gwleidyddion pigmi' ochr yn ochr â llun o'n Prif Weinidog, sef arweinydd du cyntaf llywodraeth genedlaethol yn Ewrop. Mae llawer o'r farn bod y term yn sarhaus, ac yng nghyd-destun yr erthygl, mae'n debygol iawn o gael ei ddehongli fel sylw difrïol hiliol.

A wnewch ystyried a yw Cod Ymarfer y Golygyddion, sy'n dweud bod rhaid i'r wasg osgoi cyfeiriadau niweidiol neu ddifrïol at hil a lliw, wedi'i dorri? Yn sicr, dyna'r casgliad rydym wedi dod iddo. Rhowch wybod pa gamau y

---

[1] Gweithredu, nid geiriau: creu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030


[2] Darperir linc electronig i'r erthygl wreiddiol yn yr e-bost eglurhaol.

gall Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg eu cymryd gan obeithio osgoi ailadrodd yr hyn sy’n sylw sarhaus, rhagfarnllyd hiliol yn ein barn ni.

Fel mater ar wahân, byddem yn croesawu eich barn chi am sut rydych yn sicrhau bod y wasg yn fwy cyffredinol yn cymryd rhan wrth fynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu yn y sector ac yn y gymdeithas o ystyried eich rôl ddylanwadol wrth gynnal gwerthoedd a safonau yn y sector.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.